



Trwy ganiatad CC weburbanist – gweler weburbanist.com/2017/10/11/picnic-at-the-border-artist-jr-hosts-bi-national-meal-at-a-giant-table/

Cyfeillgarwch sy'n croesi muriau (Mwy ar dudalen 7)

Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol



Sam Hodgins a Sarah Morris

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol cafwyd adroddiadau calonogol gan wahanol adrannau'r Corff. Ac eleni yn ystod adroddiad Is-bwyllgor y Chwirydd tynnwyd ein sylw at thema newydd gwaith yr Is-adran ar gyfer y flwyddyn 2019-2020. Y thema newydd yw, *Myfi yw Bara'r Bywyd*. Cyhoeddwyd llyfryn yn llawn o syniadau ac adnoddau i'w defnyddio naill ai yn unigol, neu mewn grŵp yn y capel, a cheir hefyd ffurf o oedfa i'w ddefnyddio ar y Sul.

Cawsom gyfle hefyd i glywed am ddatblygiad gwaith arloesol yn ardal Sandfields, Port Talbot gan Sam Hodgins a'r modd y gellir defnyddio'r llyfryn.

Diolchwyd hefyd am gasgliad o £33,700.

Yn ystod y sesiwn cawsom orig i ddathlu cydweithrediad yr Is-adran ar Brosiect Cenhadol Rhyngwladol Newydd. A dyma gyfle i gynnwys ychydig mwy o wybodaeth am y prosiect a'i hanes. **Sarah Morris** sy'n egluro.

Cynghorydd ar gyfer K Ward Ysbyty'r Synod, Durtlang, Mizoram

Yn dilyn anerchiad y Parch. Aneurin Owen yn Sasiwn Cenhadol y Gogledd 2018, derbyniwyd awgrym gan bwyllgor Sasiwn Cenhadol y Gogledd ein bod yn cefnogi nyrs yng Ngogledd Ddwyrain India. Cysylltodd Aneurin ag Ysbyty Synod Durtlang, a dyma'r ymateb a gafodd gan Dr Channa a Dr Sanga:

"Pu Zolawma (Aneurin) – as you saw, the need in K WARD for a counsellor is immense. Dr Sanga and I cannot do everything, now with our palliative work/ HIV and the countless advocacy/ awareness work we do in the community."

Ymddengys fod y sefyllfa yn Mizoram yn gwaethygu, yn anffodus, a'r lefelau o HIV yno gyda'r uchaf yn India ar hyn o bryd. Maent yn ymdrechu i godi safon y gwasanaeth ac yn cynnig

gwasanaethau dwys i'r rhai sydd o risg uchel – sef defnyddwyr cyffuriau sy'n cael triniaeth ar K Ward yn Ysbyty'r Synod yn Durtlang.

Yr angen pennaf yw am gynghorydd ar y ward yn hytrach na nyrs. Mae ganddynt nifer addas o nyrsys erbyn hyn, ac maent yn diolch i'r Arglwydd am hynny.

Ar hyn o bryd felly mae'r tîm yn cynnwys dau feddyg (Dr Sanga a Dr Channa), chwe nyrs a phedwar o ddynion ifanc i ofalu am y ward. Byddai cael cynghorydd yn rhyddhau amser y meddygon ac yn rhoi gwell ystod o ofal personol i'r cleifion. Mae'r caplaniaid yn ymweld â'r ward yn achlysurol i gynnal cyfarfodydd gweddi ac astudiaethau Beiblaidd.

Mae nifer y bobl sy'n byw hefo HIV ac



Dr Sanga

sy'n dod i gael triniaeth yn yr Ysbyty yn 1290 (2018) ynghyd a 485 o gleifion allanol. Cafodd 457 o unigolion eu dadwenwyo ar K Ward yn 2018 ac fe dderbyniodd 65 lawdriniaeth i ddelio a
(parhad ar y dudalen nesaf)

LLE I ENAID GAEL LLONYDD...



Y mae i bob un ohonom lefydd arbennig. Gall fod yn le tawel ddiarffordd, yn adeilad efallai sydd ag arwyddocâd arbennig iddi. Efallai nad yw'r lle yn bwysig i unrhyw un arall. Ond i ni, mae'n le sy'n llawn o hud, neu yn aml, ryw rin cyfrin. Dyma'n lle ni, cartref ein hatgofion melysaf, manau tawel ein cyfarfod â'r Arglwydd. A heddiw cawn ein tywys gan **Jennifer Roberts** i deithio a seiadu a myfyrio.

Dwi'n hoff iawn o gerdded. Fy hoff le ydy cerdded drwy'r goedwig, a'r ci bach yn cael rhedeg yn rhydd wrth fy ymyl. Ac wrth gerdded rwy'n medru myfyrio, meddwl am sefyllfaoedd bywyd a gweddïo a gwrando ar lais Duw.

Es i am dro yn y gwanwyn a siaradais efo Duw a gofyn iddo siarad efo fi.

Sefais yn llonydd yn y goedwig a myfyrio.

'Roeddwn yn meddwl am y coed yn cysgu, yn gorffwys, yn deffro wedi'r gaeaf, yn ymeginio drachefn.

Wedi eu cleisio a'u curo gan stormydd y gaeaf.

Yn disgwyl i'r amodau fod yn iawn, iddynt ddeffro ac adfywio.

Nid yw pob coeden yn gweld gwanwyn arall; cafodd rhai eu torri yn y stormydd.

Ond i'r coed sy'n goroesi y mae y wobr o fywyd newydd, llawn gwyrddni a bywyd yn rhyfeddol.

Ac y maent fel pe baent yn ymfalchio mewn bywyd a hwnnw'n fywyd yn ei holl gyfanrwydd

Yn debyg i ni.

'Rwyf yn hoffi clywed beth mae Duw yn ei ddweud a sut mae o'n fy helpu i ar fy nhaith ar hyd llwybrau bywyd.

Wrth gerdded ar hyd y llwybr 'rwy'n cyrraedd fy hoff le, lle distaw ar lan yr afon. Yn y fan yma byddaf yn eistedd ar y garreg. Nid yw yn bosibl bob tro, ond 'rwyf yn gorffwys fan hyn am gyfnod.

Y tro diwethaf yr oeddwn yno teimlais bod Duw yn fy annog i adrodd Salm 23.

Yr ARGLWYDD yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,

a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,

ac y mae ef yn fy adfywio.

Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du,

nid ofnaf unrhyw niwed,

oherwydd yr wyt ti gyda mi,

a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwygo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynyon;

yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew;

y mae fy nghwpan yn llawn.

Ond pwysleisio ar yr adnod yma yn arbennig ...

Yr ARGLWYDD yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf.

Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision,

a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel,

ac y mae ef yn fy adfywio.

Eisteddais yn llonydd ac anadlu yn ddwfn i fewn ac allan, a gofynnais i'r Ysbryd Glân fy llenwi fi a fy nghynorthwyo i.

Edrychais ar y dŵr, gan oedi i syllu ar fyd natur sydd o'm cwmpas, gwrando ar yr adar a sŵn y dŵr

Ac yma, yn y fan hon, lle 'rwy'n ceisio Duw byddaf yn teimlo mai fan hyn yw fy lle i i'm henaid gael llonydd.

Cynghorydd ar gyfer K Ward Ysbyty'r Synod (parhad)



Ysbyty Durtlang

absis a briwiau o ganlyniad i'r niwed o chwistrellu cyffuriau. Mae dros 80% o'r cleifion hyn rhwng 20 a 40 oed a chyda chanran uchel yn HIV – dros 12% – mae'n hawdd deall pam mae cynnig triniaeth i'r grŵp yma mor eithriadol o bwysig.

Byddai'r gost o gyflogi cynghorydd (gyda MSW, Master Social Work, neu yn MA mewn Seicoleg gyda phrofiad o gynghori mewn dibyniaeth) yn Rs 25,000 y mis sef Rs. 300,000 y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae hyn yn £3,250 y flwyddyn yn ôl y raddfa gyfnewid bresennol.

Mae'r Is-bwyllgor wedi ymrwmo i roi'r swm yma am dair blynedd


gydag adolygiad o'r swydd/sefyllfa at ddiwedd yr ail-flwyddyn.

Gweddïwch gyda ni dros staff Ward K, sy'n gweithio'n galed iawn o dan amodau digon anodd. Gweddïwch hefyd bydd y cleifion yn profi iachâd ysbrydol wrth iddynt gael eu trin yn yr ysbyty. Cewch ddiweddariadau cyson am y prosiect yn y Bwletin Cenhadol, sydd ar gael gan Eirian Roberts, swyddfa Coleg y Bala.

(Gol. Dangoswyd cyfweiliad gyda Dr. Sanga yn ystod y cyflwyniad yn y Gymanfa Gyffredinol. Os hoffech ei weld i gael blas uniongyrchol ar y gwaith cysylltwch gydag Alice Williams yn y Swyddfa yng Nghaerdydd)

Gobaith y Cristion

Yn sgil y disgwyliad am Brexit, "doed a ddelo" ar 31 Hydref eleni, oherwydd hinsawdd wleidyddol Prydain, a'r dryswch sydd rhwng y gwledydd, clywir ar bob llaw leisau sy'n mynegi diflastod, syrffed, neu bryder, neu hyd yn oed ofn am y dyfodol. Nid yw addewidion gwleidyddion am ddyfodol disgrair yn y dyfodol yn lliniaru ofnau'r rhai sydd eisoes yn byw yng nghysgod pryder.



Jürgen Moltmann

[https://commons.wikimedia.org/wiki/File:J%C3%BCrgen_Moltmann_im_Hospitalhof_Stuttgart_M%C3%A4rz_2016_\(cropped\).jpg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:J%C3%BCrgen_Moltmann_im_Hospitalhof_Stuttgart_M%C3%A4rz_2016_(cropped).jpg)

Beth sydd gan y Cristion i ddweud wyneb yn wyneb â hyn?

Mae geiriau Jürgen Moltmann am ystyr *Gobaith* i'r Cristion, o fyfyrion arnynt, yn anogaeth i ni.

"Y mae gobaith yn fwy na theimlad. Mae gobaith yn fwy na phrofiad. Mae gobaith yn fwy na rhagweleidiad. Y mae gobaith yn orchymyn. Ufuddhau iddo yw bywyd, goroesiad, dyfalbarhad, a sefyll yng nghanol bywyd hyd nes y bydd marwolaeth yn cael ei lyncu mewn buddugoliaeth."